# COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR – NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD MAWRTH 8 MAI, 2018

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, G Breeze, J Charlton, K W Curry, A W Davies, B Davies, P Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, D R Jones, E Jones, G Jones, E M Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, N Morrison, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, P Roberts, K M Roberts-Jones, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams ac R Williams

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir L V Corfield, S C Davies, L Fitzpatrick, J R Jones ar fusnes arall gyda'r Cyngor, P E Lewis, S Lewis, MC Mackenzie ar fusnes arall gyda'r Cyngor, L Roberts, D Rowlands, K S Silk, J Wilkinson ac S L Williams.

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr Dros Dro Dr Mohammed Mehmet a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Alison Bulman i'w cyfarfod Cyngor cyntaf. Diolchodd i Phil Evans oedd wedi cwblhau'i gyfnod fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro.

## 2. DATGANIADAU BUDDIANNAU

Ni soniwyd am unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 3. AROLWG AGC O WASANAETHAU OEDOLION

Bu'r Cyngor yn trafod adroddiad arolygu AGC am Wasanaethau Oedolion ym Mhowys. Er bod AGC wedi gweld tystiolaeth bod rhai pobl yn derbyn gofal a chymorth da, morâl uchel ymhlith y staff ac ymrwymiad i wella gwasanaethau ynghyd â chynnydd mewn adnoddau, roedd yr adroddiad wedi adnabod pryderon sylweddol mewn meysydd allweddol: cyrchu gwasanaethau; asesiadau cyson; ôl-groniad annerbyniol o waith diogelu yn y cyfnodau sgrinio ac ymholi; systemau diogelu; oedi wrth ddarparu'r gwasanaethau a nodir mewn cynlluniau gofal a chymorth, a rheoli perfformiad. Casgliad yr arolygwyr oedd bod angen gwelliannau sylweddol.

Derbyniwyd canfyddiadau'r adroddiad gan yr Arweinydd a Deiliad y Portffolio dros Wasanaethau Oedolion. Buont yn egluro, yn dilyn yr adroddiad beirniadol am Wasanaethau Plant, fod Gwasanaethau Oedolion wedi cynnal hunanasesiad yr oedd ei ganfyddiadau'n bur debyg i rai'r arolygwyr. Erbyn adeg yr arolwg, roedd gwaith eisoes wedi mynd rhagddo ymhell i ddatblygu cynllun gwella, gyda

Gwasanaethau Oedolion yn cael eu hychwanegu at raglen waith y Bwrdd Gwella a Sicrwydd. Cydnabu'r Arweinydd a Deiliad y Portffolio y cymorth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwaith y pwyllgor Craffu. Roedd Deiliad y Portffolio o'r farn fod y gwasanaeth mewn sefyllfa dda i wella a nododd, am y tro cyntaf ers 18 mis, fod tîm arweinyddiaeth cyflawn yn ei le.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion AGC. O'r 16 o argymhellion, roedd chwech yn flaenoriaethau i ymdrin â nhw'n syth a byddai'n rhaid mynd i'r afael â'r deg arall o fewn 12 mis.

Mynegodd nifer o aelodau bryderon fod gwersi heb eu dysgu o adroddiadau arolygu blaenorol. Roedd sawl un yn feirniadol o ganolfan alwadau Llinell Uniongyrchol Powys gan gyfeirio at enghreifftiau lle bu'n rhaid i bobl aros am 20 munud i'w galwadau gael eu hateb, gyda thros 40% o'r galwadau'n cael eu colli.

Cydnabu Deiliad y Portffolio dros Wasanaethau Oedolion fod diffygion wedi bod yn y gwasanaeth ac ymddiheurodd am y diffygion hyn. Pwysleisiodd y pwysigrwydd bod y Cyngor yn ei grynswth yn derbyn cyfrifoldeb ac yn cytuno ar yr argymhellion yn yr adroddiad. Cynigiodd yr argymhellion ac fe'i heiliwyd gan yr Arweinydd.

Argymhelliad 1: o 57 pleidlais i 0

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **1. Bod y Cyngor yn nodi cynnwys yr Adroddiad Arolygu Gwasanaethau Oedolion gan dderbyn yr argymhellion a wnaethpwyd.** | **Sicrhau llywodraethu da a chydymffurfio ag argymhellion Arolygiaeth Gofal Cymru.** |

Argymhelliad 2: o 56 pleidlais i 0

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **2. Bod y Cyngor yn nodi'r gwaith sydd ar y gweill i fynd i'r afael â phryderon yr Arolygiaeth a'r trefniadau yn eu lle i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad.** | **Sicrhau llywodraethu da a chydymffurfio ag argymhellion Arolygiaeth Gofal Cymru.** |

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Huw Williams fod rhaid i'r gwaith i wella'r gwasanaeth fod yn atebol i bob aelod etholedig ac yn ddarostyngedig i graffu a thrafod parhaus yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir David Thomas.

O 37 pleidlais i 19

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y Penderfyniad** |
|---|---|
| **Bod gwaith i wella'r gwasanaeth** | **Yn unol ag argymhelliad** |

| | |
|---|---|
| **yn atebol i'r holl aelodau etholedig ac yn ddarostyngedig i graffu a thrafod parhaus yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.** | **adroddiad AGC.** |

Cynigiodd y Cynghorydd Sir John Morris fod y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Craffu ar Gyllid yn derbyn gwybodaeth gywir ac amserol am wariant Gofal Cymdeithasol i Oedolion pan ofynnir ganddynt. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Roger Williams.

O 43 pleidlais i 11

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Bod y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Craffu ar Gyllid yn derbyn gwybodaeth ariannol gywir ac amserol am y gwariant yn adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion pan ofynnir ganddynt.** | **Galluogi craffu amserol.** |

Torrodd y Cyngor rhwng 12.02 a 12.16. Gadawyd y cyfarfod gan y Cynghorwyr Sir G. Price, T Van-Rees ac H Williams.

| | |
|---|---|
| 4. | **DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU PLANT: YR AIL ADRODDIAD GWELLA CHWARTEROL I LYWODRAETH CYMRU** |

Rhoddwyd diweddariad ar y cynnydd a wneir yng Ngwasanaethau Plant gan Ddeiliad y Portffolio dros Bobl Ifainc a Diwylliant a Phennaeth Gwasanaethau Plant. Roedd y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2018 wedi gweld gwelliannau sylweddol mewn perfformiad ac roedd hyn wedi'i gadarnhau gan archwiliad monitro dilynol gan AGC. Roedd y buddsoddiad ariannol yn y gwasanaeth yn dwyn ffrwyth gyda recriwtio gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth ychwanegol.

Cydnabu Cadeirydd Pwyllgor Craffu B y ffordd gadarnhaol yr oedd Pennaeth y Gwasanaeth yn cydweithio â Chraffu ac roedd ymhlith nifer o aelodau a ofynnodd i'r data perfformiad fod ar gael i'r holl Aelodau. Hysbyswyd yr aelodau bod diwrnod datblygu wedi'i drefnu ar gyfer 8 Mehefin i'w hyfforddi ar sut i gyrchu data rheoli perfformiad.

Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi dechrau ymweliadau â thimau'r rheng flaen yr oedd yr Aelodau a'r staff wedi'u cael yn fuddiol iawn. Roedd yr Aelodau hefyd wedi gofyn am fynediad i glinigau iechyd rhywiol a gwasanaethau iechyd meddwl a'r trefniadau pontio ar gyfer pobl ifainc sy'n symud o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion. Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried pa gefnogaeth y gellid ei rhoi i bobl sy'n gadael gofal, fel cael eu heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor. Atgoffodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Ddeiliad y Portffolio ei

fod wedi gofyn am fwy o wybodaeth am gyllideb y Gwasanaethau Plant ac fe'i gwahoddwyd i'r Pwyllgor i drafod y gyllideb.

Nododd Deiliad y Portffolio y pwyntiau a wnaed gan yr Aelodau ynglŷn â data rheoli perfformiad gan gytuno y dylid sicrhau eu bod ar gael yn ehangach. Cytunodd hefyd ar y pwyntiau a wnaed ynghylch yr angen i bobl ifainc gael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl ac iechyd rhywiol a byddai'n codi hyn gyda'r Bwrdd Iechyd. Cadarnhaodd fod y gwasanaeth yn cymharu data perfformiad ag awdurdodau lleol eraill a'i bod yn fodlon mynychu'r Pwyllgor Archwilio. Cadarnhaodd Deiliad y Portffolio Cyllid y byddai'r polisi ar eithriadau rhag talu'r Dreth Gyngor yn derbyn sylw dros y mis nesaf.

**Y Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd)**